

Cystadleuaeth Tlws y Dysgwr (91)

Ffugenw : Ap James

Enw : Lin McGrath

Darn 1

Newyddion S4C

"Helo a noswaith dda. Carys Jones dw i. Ar y bwlitin heno;

"Arestiwyd dyn pedwar deg oed gan Heddlu Glannau Mersey ddoe ar amheuaeth o ddwyn cadair Eisteddfod Powys ar y trydydd o Orffennaf eleni. Estraddodir y dyn o Lerpwl i Gymru wythnos nesaf i wynebu treial gerbron Llys y Goron, Caerdydd.

"Dywedodd yr heddlu nad oes dim byd i gysylltu'r digwyddiad hwn â'r grŵp ymgyrchu o Lannau Mersey, 'Lerpwl Eisteddfodau Mawr am Byth Oce!!', neu 'LEMBO' yn fyr, ar hyn o bryd."

"Mae LEMBO eisiau symud yr Eisteddfod Genedlaethol yn barhaol o Gymru i Ddoc Albert, Lerpwl, ond dydy adroddiadau heb gael eu cadarnhau bod aelodau o LEMBO wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod, yn enwedig categorïau'r dysgwyr, mewn ymgais i ddwyn y gwobrau oddi wrth bobl Cymru. Fodd bynnag, mae Newyddion S4C wedi methu gwirio hyn."

"A rwan am y tywydd yfory....."

Dydd Llun y cyntaf o fis Awst. Llys y Goron Caerdydd, ystafell llys un.
Y Goron yn erbyn Mr George Michael. Mae'r treial yn dechrau....

"Llys!"

"Eisteddwch os gwelwch yn dda."

"Mi fydd y diffynnydd yn sefyll o flaen Eich Anrhydedd, y Barnwr."

"Rhowch eich enw llawn os gwelwch yn dda."

"George Michael."

"Mr Michael, dach chi wedi cael eich cyhuddo fel a ganlyn: ar y trydydd o Orffennaf rhwng 7 a 9 yr hwyr gwnaethoch chi ddwyn cadair Eisteddfod Powys o'r prif bafiliwn yn groes i'r gyfraith gyffredin. Sut dach chi'n pledio?"

"Dieuog, Eich Anrhydedd."

"Wnewch chi eistedd os gwelwch chi'n dda."

Cwmsler ar ran yr amddiffyniad

“Mr Michael. Ar y trydydd o Orffennaf tua wyth o’r gloch, Dweddodd tyst ei bod hi wedi gweld dyn o’ch disgrifiad chi’n rhedeg allan o’r Prif bafiliwn yn cario gwrthrych mawr o siâp anarferol o dan flanced fawr.

Pythefnos yn ddiweddarach, dyma ‘Arddangosyn ‘A’ – argraffiad sgrin o Gadair yr Eisteddfod ar werth gan werthwr o’r enw WHAM1986.

Chi oedd hynny?”

“Nacl!, Ro’n i yn y bar ar y pryd.”

“Cawsoch chi eich gweld yn siarad yn dawel iawn ar eich ffôn am fan hefyd.”

“Naddo! Dim ond ‘Sibrwd Diofal’ oedd hynny!”

“Dim cwestiynau pellach, Eich Anrhydedd.”

Cwmsler ar ran yr erlyniad.

“Mr George Michael. Mi hoffwn i fynd a chi’n ôl i noson y trydydd o Orffennaf. Wnaethoch chi berfformio ar lwyfan Maes B?”

“Do.”

“Mi hoffwn i chi feddwl yn ofalus rŵan. Dach chi newydd orffen eich perfformiad efo casgliad o ganeuon Elton John (yn Gymraeg wrth gwrs!). Wedyn, dach chi’n cerdded ar draws y maes i’r Prif Bafiliwn pan mae dynes yn gweiddi, ‘Stopiwch! Lleidr!!’ Ar y pwynt hwn, lle dach chi? Dach chi’n eistedd yn y gadair?”

“Nac ydw! ‘Dw i’n dal i sefyll!’

(Mae’r rheithgor: yeh!... yeh!... yeh!)

“TREFN! TREFN! Dan ni’n siarad am gadair yr Eisteddfod yma, nid cadeiriau cerddorol na ‘Top of the Pops!!’

“Wrth cwrs, Eich Anrhydedd.”

“Dim cwestiynau eraill, Eich Anrhydedd.”

“Aelodau o’r rheithgor, mi gewch chi adael rŵan i ystyried eich dyfarniad.”

Awr yn ddiweddarach...

“Aelodau o’r rheithgor, dach chi wedi cyrraedd dyfarniad?”

“Do.”

“Dach chi’n canfod bod yr diffynnydd yn euog neu’n ddieuog?”

“Yn euog, Eich Anrhydedd.”

“Yn dda iawn. Mr Michael, sefwch! Mae’r llys wedi eich cael chi yn euog. Dedfrydir chi wythnos nesa – ewch â fo i ffwrdd!”

“Llys wedi’i dderfynu.”

Ar ôl y dyfarniad, mae prif arolygydd heddlu Dyfed-Powys yn rhoi datganiad i’r wasg sy’n aros tu allan i’r llys.

“Yn gyntaf, mi hoffwn i ddiolch i heddlu Glannhau Mersey am eu cymorth nhw i roi’r troseddwr hwn y tu ôl i fariau. Mi hoffwn i sicrhau’r gymuned bod troseddau o’r fath yn hynod o brin ac bod y risg i gadeiriau Eisteddfodau eraill yn fach iawn.”

“Fodd bynnag, dan ni’n dal i edrych ar adroddiadau am aelodau LEMBO yn ceisio ennill cystadlaethau Eisteddfod. Dan ni’n gofyn i bob beirniad Eisteddfod barhau i fod yn wylidwrus ac adrodd ar unrhyw geisiadau cystadleuaeth rhyddiaith anarferol o ddoniol i’w pwyllgor os oes gynnon nhw unrhyw bryderon — yn enwedig os yw’r awdur yn defnyddio ffugenw Cymraeg.....”

AP James

.....

Darn 2

Mae Ffon yn canu.

'Helo Sian sy'n siarad'

'Helo Sian, Cerys o Gyrchfannau Moethus Ynysoedd sydd yma. Llongyfarchiadau! Dach chi wedi ennill gwyliau i bedwar o bobl yn ein cyrchfan ynys newydd 'Y Bae'.

'O mam bach! Fedra i ddim credu! Beth, fi sy wedi ennill??? - O mam bach! Arhoswch nes i mi ddweud wrth fy ffrindiau. O waw, am syndod gwych - gwyliau am ddim! Dw i ddim yn cofio mynd i mewn unrhyw gystadlaethau i ennill gwyliau, dach chi'n siŵr mai fi sydd wedi ennill?'

'Ie ma'am! Cawsoch chi eich dewis ar hap o filoedd o bobl yn eich ardal chi.'

'O waw - dw i'n lwcus iawn.'

'Llongyfarchiadau eto. Rwan, mi fydda i'n esbonio'r print man i chi ac yn archebu'ch gwyliau i gyd.'

'Reit, mae'r wobr wythnos i bedwar o bobl, aros yn un o'n lletyau 'Whitmore' nodedig. Gellir cymryd y gwyliau unrhyw bryd yn ystod y deuddeg mis nesaf ac eithrio: y Nadolig, y Flwyddyn Newydd, y Pasg, gwyliau banc, gwyliau ysgol, wythnosau brig, lleuad lawn a llanw uchel. Felly, sgennoch chi unrhyw ddyddiadau mewn golwg?'

Erm; beth am y pedwerydd o fis Mai?

'Mi wna i ei wirio i chi – dallwch y llinell. Mae'n ddrwg gen i ond mae'r wythnos honno'n llawn.'

'Oce, medrech chi drio'r trydydd o Fehefin? Mae pen-blwydd fy ffrind yn yr wythnos honno'.

'Iawn, un munud. O, mae'n ddrwg gen i, dyna'r wythnos brig. Mae gynnnon ni'r degfed o Dachwedd neu'r ugeinfed o Ionawr ar gael?'

'Oce, ga i'r ugeinfed o Ionawr felly? Bydd ychydig o haul yn yr ynys yn braf ym mis Ionawr'.

'Dewis ardderchog! Rwan, i wneud eich gwyliau hyd yn oed yn well, yr wythnos hon mae gynnnon ni adloniant ar gael – yn ein lleoliad adloniant ar y safle. Bydd band teyrnged gwych o'r wythdegau yn chwarae.'

'O mam bach!! Treigladau yn chwarae?? Rili??? Nhw ydy fy hoff fand!'

'Yn anffodus doedden nhw ddim ar gael yr wythnos honno ond mae gynnnon ni..... Foney M. Mae nhw'n boblogaidd iawn efo'r bobl leol ac mae tocynnau i'w gweld fel

arfer yn mynd yn gyflym iawn. Fasech chi hoffi bwcio pedwar tocyn yn y cyfadeilad adloniant i weld y band?’

‘O oce.’

‘Ardderchog! Dw i’n siŵr byddwch chi’n cael noson wych. Hefyd, mae gan y gyrchfan fwyty gastronomig a thema marchogaeth.’

‘Waw, mae ’na Galloping Gourmet???’

‘Wel... mwy ‘Hungry Horse’ ond mae’r bwyd yn flasus iawn. Hoffech chi archebu bwrdd ar gyfer y noson gyntaf am flaendal bach?’

‘Plis.’

‘Wedi gwneud popeth! Cyn i ni orffen, ma’am, dw i’n sylwi ar fy sgrin fod cynnig uwchraddio arbennig untro ar lety ‘Jacson’ yr wythnos honno. Dw i’n credu y medrech chi uwchraddio i un o’n lletyau uwchraddol. Maen nhw’n anhygoel. Hoffech chi i mi edrych ar hynny i chi?’

‘Um, dw i ddim yn siŵr - faint yn fwy ydy o?’

‘Dim ond ugain punt y pen, ma’am, yn seiliedig ar chwech o bobl yn rhannu llety tair ystafell wely, a maen nhw’n bendigedig. Mae nhw’n dod efo gwres canolog - gwyh ar gyfer gwyliau mis Ionawr - a golygfa ochr o’r bae.’

‘O wel, dw i’n meddwl oherwydd bod y gwyliau am ddim, y byddaf yn rhoi pleser i mi fy hun.’

‘Dw i’n cytuno, ma’am - syniad da! Oce. Rwan, efo trethi, uwchraddiadau, ffioedd gwasanaeth, blaendaliadau a thocynnau adloniant, dyna gyfanswm o dri chant a naw deg pump o bunnoedd i dalu heddiw.’

‘Beth? Ro’n i’n meddwl bod y gwyliau ‘am ddim’?’

‘Ydan, ma’am - dim ond talu am y pethau ychwanegol. Sut hoffech chi dalu heddiw?’

‘O, bydd yn rhaid i mi ei roi ar fy ngherdyn am y tro. Dach chi isio’r manylion?’

‘Ydy, ma’am, os dach chi’n medru mynd i mewn yna ar eich ffôn ar ôl y bip, bydd hynny’n iawn.’

Ffôn y bip,

‘Diolch yn fawr iawn, mae hynny i gyd wedi mynd drwodd’.

‘Oce, mae hynny’n llawer o arian ond, gwyliau moethus ar ynys ydy o, dw i’n tybio, a dan ni angen gwneud y gorau o’r gyrchfan pan dan ni yno. O leiaf bydd y teithiau awyr yn rhad yr adeg honno o’r flwyddyn. Ble mae’r gyrchfan mewn gwirionedd? Ibiza? Tenerife? - Dydy hi ddim yn daith hir, nac ydy?’

'Wel.... Medrech chi ddweud mai gwyliau 'carbon isel' ydy o, ma'am.'

'O felly fydden ni'n mynd ar Eurostar? Dim hedfan? Ydy o yn Ewrop?'

'Wel... Trafnidiaeth i Gymru, ma'am... mae'n Barri- Ynys y Barri!'

'Beth?? Tri chant a naw deg pump o bunnoedd am wythnos yn Ynys y Barri??? Yn mis Ionawr??'

'Wel....., dw i wedi clywed y bydd yr ardal yn dawel wedyn. Perffaith ar gyfer archwilio'r mannau poblogaidd i dwristiaid.....'

AP James